# Y CYNGOR DYDD IAU, 14 RHAGFYR 2017

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Annwen Daniels (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Hughes (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, R.Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, R.Medwyn Hughes, Sian Wyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, W.Roy Owen, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Uwch Reolwr – Refeniw a Risg), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Louise Hughes, Linda Morgan, Jason Parry, Gareth A.Roberts, W.Gareth Roberts, Hefin Underwood a Gareth Williams.

## 1. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 2017 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi bod y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Edgar Owen a Cemlyn Williams yn bresennol a chywiro enw Grŵp Llais Annibynnol Gwynedd yn y tabl cydbwysedd gwleidyddol yn eitem 12 i ddarllen "*Annibynnol Unedig Gwynedd*".

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

'Roedd yr aelodau wedi derbyn nodyn briffio ymlaen llaw gan y Swyddog Monitro ynglŷn ag eitem 8 – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2018/19.

Atgoffwyd yr aelodau i ddychwelyd eu ffurflenni datgan buddiant.

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 8 ar y rhaglen – Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor 2018/19 am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Eirwyn Williams – oherwydd bod ei wraig yn anabl ac yn derbyn gostyngiad yn y dreth o ganlyniad i hynny.
- Y Cynghorydd Dafydd Owen – oherwydd ei fod yn derbyn lwfans tai.
- Y Cynghorydd Nia Jeffreys – oherwydd bod aelod agos o'i theulu yn cael ei effeithio gan y cynllun.
- Y Cynghorydd Sian Wyn Hughes – oherwydd bod aelod agos o'r teulu yn derbyn gostyngiad person sengl.
- Y Cynghorydd Gruffydd Williams – oherwydd ei fod yn derbyn gostyngiad person sengl.

- Y Cynghorydd Sion Jones – oherwydd ei fod yn derbyn gostyngiad person sengl.
- Y Cynghorydd Mair Rowlands – oherwydd ei bod yn derbyn gostyngiad person sengl.
- Y Cynghorydd Stephen Churchman – oherwydd ei fod o'r farn bod ei gartref yn derbyn lleihad treth cyngor (seiliedig ar incwm).

Nid oedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â phawb o Wynedd sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd:-

- Yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Annwen Hughes, ar fod yn Nain.
- Haf Thomas, Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar ennill Gwobr Pencampwr Cymunedol yng Ngwobrau Cymunedol Scottish Power.
- Robin Williams, Cwmni Brighter Foods, Tywyn, ar ennill Entrepreneur y Flwyddyn yng Ngwobrau SME (Cwmnïau Bychan a Chanolig) yn ddiweddar.
- Iwan Roberts o Flaenau Ffestiniog ar ei lwyddiant yn dod yn Bencampwr Byd Treialon Beicio.
- Elfyn Evans o Ddolgellau ar ennill rali geir Prydain a gorffen yn y pumed safle yn y byd dros y flwyddyn.
- St. David's Leisure Ltd, ar eu llwyddiant diweddar yn ennill gwobr Busnes Twristiaeth y Flwyddyn mewn digwyddiad Gwobrau Llwyddiant Busnes y Daily Post 2017.

Gwahoddwyd yr aelodau i enwebu unigolion neu dîm o fewn gweithlu'r Cyngor ar gyfer Gwobr y Bobl, fel rhan o'r Seremoni Wobrwyo flynyddol Y Cyngor ar ei Orau.

Tynnwyd sylw at nodyn gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc, yn annog yr holl aelodau i fynychu'r Hyfforddiant Rhiantu Corfforaethol yn Siambr Dafydd Orwig ar fore'r 10fed o Ionawr, 2018.

Rhoddwyd teyrnged i'r diweddar John Albert Jones gan y Cynghorydd Owain Williams.

## 4. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Catrin Wager

"Yn dilyn y sylw mawr diweddar sydd wedi bod ynglŷn â materion o ymddygiad amhriodol mewn gwleidyddiaeth, pa weithdrefnau sydd gan y Cyngor mewn lle yng nghyswllt adrodd ac ymdrin â materion o aflonyddu ymysg swyddogion ac Aelodau?"

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands**

"Mae'r pwyslais o fewn y Cyngor ar geisio sicrhau amgylchedd gwaith ple nad oes sefyllfaoedd o aflonyddu ac mae'r nifer o achosion yr ymdrinnir â hwy yn isel ar draws y Cyngor.

Mae gan y Cyngor Gôd Ymddygiad unigol ar gyfer Aelodau ac ar gyfer Swyddogion, yn ogystal â Phrotocol ar gysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion. Mae parch a chwrteisi yn seiliau hanfodol i'r cod, ac yn diogelu'r Cyngor, ei aelodau a'i staff.

Mae 'Safon Gwynedd' ar gyfer Aelodau yn egluro'r safonau a ddisgwylir ohonom ac mae'n cynnwys trefn ar gyfer ymdrin â honiadau fod Aelod wedi torri'r protocol yna. Pendraw'r weithdrefn hon yw cyflwyno achos i gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ond mae camau i'w cymryd cyn hynny er mwyn ceisio adnabod datrysiad i'r honiadau a wneir yn anffurfiol.

Yn yr un modd mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer swyddogion yn nodi'r angen iddynt ymdrin ag eraill yn gydymdeimladol, effeithlon a heb ddangos tuedd. Ymhellach, mae Amodau Gwaith Lleol y Cyngor yn cynnwys polisïau a chanllawiau ar Urddas yn y gwaith a Chanu'r Gloch, Trefn Gwyno a'r Drefn Disgyblu.

Ymdrechir i geisio datrys rhai o'r honiadau a wneir yn anffurfiol ond mae difrifoldeb rhai honiadau yn arwain at ymdrin â materion yn ffurfiol ac, mewn sefyllfaoedd eithriadol, at atal unigolion o'u gwaith tra bo ymchwiliad yn cael ei gynnal.

Mae trefniadau ynghlwm â'r sefyllfaoedd hyn oll ple cynigir cefnogaeth i unigolion sy'n cyflwyno honiad yn ogystal â'r rhai y gwneir yr honiad yn eu herbyn. Gwneir hyn trwy gynnig gwasanaethau cwnsela annibynnol, iechyd galwedigaethol a hefyd, pan fo'r naill ochr a'r llall yn cytuno, i geisio datrys trwy gyflafareddu."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Catrin Wager**

"Y tu allan i'r gweithdrefnau 'rydych chi wedi eu trafod, oes yna unrhyw brotocol gan y Cyngor i drio annog pobl i deimlo bod nhw'n saff i ddod â chwynion o aflonyddu rhywiol, yn arbennig, ymlaen?"

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands**

"Un weithdrefn y cyfeiriais ati yn yr ymateb oedd y polisi ar ganu'r gloch ac 'rydw i'n falch o fedru adrodd bod yr ymwybyddiaeth a'r ymddiriedaeth yn y weithdrefn yma wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn caniatáu i rywun wneud cŵyn yn ddienw ac 'rwy'n gallu datgan bod hynny ar sail canlyniadau arolwg blynyddol sy'n cael ei gynnal gan yr Uned Archwilio Mewnol. Digwyddodd hyn yn sgil pryderon oedd wedi'u lleisio rai blynyddoedd yn ôl ynglŷn â'r diffyg ymwybyddiaeth o'r broses honno ac mae yna gardiau mae pob aelod o'r staff yn dderbyn yn nodi'r manylion ar ganu'r gloch. Maent yn cael eu cynnwys mewn pecynnau penodi i staff newydd a gallwn rannu rhai gyda phob un ohonoch yma heddiw. Dyma enghraifft o rywbeth mae pob aelod o staff ar draws y Cyngor wedi dderbyn. Hefyd, mae gennym y Polisi Cam-drin Domestig. Mae'r polisi a'r hyfforddiant yma yn cydnabod y gall cam-drin ac aflonyddu rhywiol ddigwydd yn unrhyw le, yn y cartref ac yn y gweithle, ac mae'r hyfforddiant yn codi'r ymwybyddiaeth yna. Mae yna wybodaeth yn cyd-fynd â'r polisi ac mae yna asiantaethau cymorth annibynnol o'r Cyngor, fel Byw Heb Ofn, Cymorth i Ferched ond mae yna rai 'rydw i'n ymwybodol ohonynt, fel, er enghraifft, RASAC (Rape and Sexual Abuse Centre) sydd ddim yna ar hyn o bryd. 'Rwy'n bwriadu gofyn i'r swyddogion ystyried cynnwys hwn ac unrhyw fudiad arall sy'n addas yn y polisi oherwydd, fel mae'r Cynghorydd eisoes wedi cyfeirio ato, efallai nad yw pobl yn teimlo'n gyfforddus yn adrodd hynny i'r Cyngor ar y pryd. Felly, drwy gael cefnogaeth mudiad allanol sy'n arbenigo yn y peth, mae hynny'n mynd i fod o fwy o gymorth, o bosib'. Ond 'rwy'n hapus i barhau i drafod os oes syniadau eraill o ran yr hyn y gallwn wneud."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

“Ydi Cyngor Gwynedd wedi mynd yn rhy bell hefo’r toriadau a’i arbedion effeithlonrwydd, hynny’n gadael Adrannau heb staff digonol ac yn arwain at yr aelodau staff sydd ar ôl yn wynebu pwysau gwaith gormodol ac yn gorfod gweithio oriau ychwanegol er mwyn cynnal y gwasanaeth?”

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands**

“Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ym mis Hydref, byddwch yn cofio i’r Prif Weithredwr gyflwyno manylion ynglŷn â sut y bydd y Cyngor yn mynd ati i wynebu toriadau pellach yn y grant y gellir ei ddisgwyl gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

Bu iddo nodi bryd hynny bod y Cyngor wedi arbed £61.5 miliwn dros y 12 mlynedd diwethaf gan rybuddio bod bwlch ariannol posib pellach o hyd at £24.4 miliwn yn wynebu’r Cyngor dros y pedair blynedd nesaf.

Yn anffodus, dyma realiti’r sefyllfa ariannol sydd yn wynebu pob un Awdurdod Lleol ac mae’n afrealistig disgwyl bod yr un lefel o wasanaeth ag yn y gorffennol yn gallu cael ei gynnal yn y fath hinsawdd. Gwnaed penderfyniadau anodd, ond angenrheidiol, gan y Cyngor yn dilyn ymgynghoriad Her Gwynedd, ac unwaith eto, bydd yna fwy o gyflwyniadau yn dod i’r Cyngor maes o law ynglŷn â’r toriadau sydd i ddod.

Mae’r awgrym mae’r Cynghorydd yn wneud ynglŷn â bod angen sicrhau nad yw’r toriadau a’r arbedion yn arwain at bwysau gormodol ar staff yn un pwysig iawn. Mae’r nifer o staff a gyflogir gan y Cyngor wedi gostwng o 6,285 yn 2015 i 5,828 ar ddechrau’r flwyddyn ariannol bresennol – gostyngiad o 457 ar draws yr holl wasanaethau.

Ymhellach, mae’r nifer dyddiau a gollwyd oherwydd salwch yn 2016/17 wedi cynyddu i naw diwrnod y pen, o 8.44 diwrnod y pen yn y flwyddyn flaenorol, ac mae angen cadw golwg ar unrhyw dueddiad tymor hirach yn y cyd-destun hwn. Fel yr Aelod Cabinet, ‘rwy’n cadw golwg manwl ar hyn yn y cyfarfodydd herio perfformiad y mae rhai o’r aelodau craffu yn fynychu hefyd. Wedi dweud hynny, ‘rwyf hefyd yn nodi bod lefel absenoldeb salwch o fewn y Cyngor yn parhau i fod gyda’r isaf ymysg awdurdodau lleol Cymru. Mae’r Cyngor wedi buddsoddi yn y gefnogaeth a roddir i gynnal iechyd a llesiant staff ac mae’r buddsoddiad hwnnw, yn un o’n hadnoddau pwysicaf, wedi’i warchod rhag y toriadau a’r arbedion diweddar.

Mae cynnal y cydbwysedd rhwng gweithredu o fewn y gyllideb a sicrhau parhad gwasanaeth, tra’n gwarchod lles corfforol a meddyliol y bobl sy’n gyfrifol am wneud hynny, yn anodd ond mae’r aelodau Cabinet unigol yn gwbl effro i’r angen hwn am gydbwysedd ac yn derbyn adborth rheolaidd gan benaethiaid a rheolwyr ynglŷn â pherfformiad a’r capasiti i gyflawni.

Mae strategaeth ariannol y Cyngor wedi’i gydnabod fel bod yn ddarbodus a chadarn gan Swyddfa Archwilio Cymru tra bo aseswyr Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu’r Lefel Aur i’r Cyngor, am y trydydd tro yn olynol yn ddiweddar, ar sail y gefnogaeth a ddarperir i hybu a hyrwyddo iechyd a llesiant staff.

Cydnabyddir bod ymrwymiad staff y Cyngor i wasanaethu pobl Gwynedd yn un cryf a bod enghreifftiau lu o’r staff hynny yn mynd y filltir ychwanegol yn eu hymdrechion. Yr hyn sy’n bwysig i ni, fel Aelodau’r Cyngor, yw rhoi pob cefnogaeth i’r gwaith hwnnw ac i fod yn realistig yn ein disgwyliadau o’r hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr hinsawdd ariannol bresennol.”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams**

“Pwy sy’n edrych i mewn i hyn a sut mae’n digwydd?”

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands**

“Fel y ceisiais egluro yn yr ateb, mae yna nifer o ffyrdd gwahanol. Yn amlwg mae penaethiaid ac uwch reolwyr yn gorfod cadw golwg ar y sefyllfa ac mae gan yr Aelodau Cabinet gyfrifoldeb i sicrhau bod yna gydbwysedd. Hefyd, fel y gwnes i gyfeirio, mae pob Aelod Cabinet yn cael cyfarfodydd herio perfformiad. Er enghraifft, mi soniais am y lefelau salwch. Mae hynny’n rhywbeth sy’n dod i fy nghyfarfod herio perfformiad i, ond yn amlwg mae yna bethau eraill y byddai modd eu craffu yn y cyfarfodydd eraill gan Aelodau Cabinet, ond os ydych chi, fel aelodau, yn ymwybodol o unrhyw beth neu bwysau sylweddol ‘rydych chi’n ei weld, dewch â hwy draw atom fel Aelodau Cabinet i’r meysydd portffolio perthnasol. Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach.”

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Sut ddaru’r Aelod Cabinet ddod i benderfyniad ynglŷn â dewis Cynghorwyr i fynd ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG)?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

“Ar y cychwyn, mae’r aelodau i gyd yn llenwi ffurflen yn dweud pa feysydd sydd o ddiddordeb iddynt, felly rydw i’n edrych ar hynny i gychwyn. Yna edrych ar brofiad pobl a gweld beth fyddent yn gallu cynnig i CCG. Wedyn, ‘rwy’n ceisio cael rhyw fath o gydbwysedd, felly ‘roeddwn yn ticio pob bocs, ac ‘rwy’n credu mod i wedi llwyddo. Felly, mae gennym gydbwysedd daearyddol a chydbwysedd rhyw, gyda 2 a 2. ‘Roeddwn eisiau gwneud yn siŵr bod yna ryw fath o gysondeb gyda’r hyn oeddem yn ei wneud o’r blaen, felly mae gennym rai â phrofiad yn ogystal â gwaed newydd, sef 2 a 2 eto. Hefyd, mae yna gydbwysedd gwleidyddol, gydag un o’r Grŵp Llafur Rhyddfrydol, un o’r Grŵp Annibynnol a dau o Grŵp Plaid Cymru. ‘Rydw i hefyd wedi cael pobl hŷn a phobl ieuengach, felly credaf fy mod wedi cymryd popeth i ystyriaeth - gobeithio eich bod yn cytuno. Mae yna 75 ohonom ar y Cyngor, a dim ond lle i 4 ar y Bwrdd. ‘Rydw i wedi gwneud fy ngorau.”

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

“Ydi’r Aelod Cabinet yn fodlon ail-edrych ac ad-drefnu’r aelodau bob dwy flynedd?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

“Yn gyntaf, ‘rydym yn penodi cynghorwyr i’r Bwrdd. Cytunaf fod angen cynrychiolaeth glir ar y Bwrdd o blith y tenantiaid, ond nid fy swyddogaeth i yw hynny. Fy swyddogaeth i yw penodi pobl gall sy’n mynd i drio cydweithio hefo CCG i gael y gorau i drigolion Gwynedd, ac ‘rwy’n credu mod i wedi llwyddo. Mae yna ddigon o gyfleoedd yn CCG rŵan i benodi tenantiaid, neu efallai y byddai tenant yn gallu prynu siâr yn y cwmni ac wedyn mae gan y person yna'r cyfle i leisio barn, ond nid fy swyddogaeth i yw penodi cynrychiolwyr y tenantiaid. Os oes gan y Cynghorydd Sion Jones unrhyw faterion yr hoffai eu codi, nid wyf i wedi clywed amdanynt hyd yma. ‘Rydw i wedi gweld yr e-byst a anfonodd a’r ymgyrch ar Twitter a Facebook, ond nid ydyw wedi cysylltu â mi o gwbl. ‘Rwy’n siŵr bod y 4 aelod yma sy’n bresennol yn

agored i wrando ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud ynglŷn â phryderon y tenantiaid oherwydd mae'n bwysig iawn a dyna pam mae CCG yna. Ond nid ydynt wedi codi unrhyw beth gyda mi, sydd wedi dod drwy'r Cynghorydd o gwbl. Os mai dymuniad y Cynghorydd yw i mi edrych ar y peth bob dwy flynedd, 'rwy'n hapus i wneud hynny. Ar hyn o bryd, 'rwy'n hapus gyda'r bobl sydd yna. Os oes un ohonynt eisiau camu i lawr unrhyw dro, mae hynny'n fater arall, ac fe ystyriaf yr aelod nesaf bryd hynny."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Mike Stevens**

"Beth yw'r oedi wrth weithredu'r protocol newydd ar gyfer swyddogion yn ymateb i ymholiadau gan aelodau ee llythyrau, e-byst neu alwadau ffôn?"

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands**

**"**Mae Adran 21 o gyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys y Protocol ar gysylltiadau Aelodau a Swyddogion, ac mae'n cynnwys arweiniad ar roi cyngor a gwybodaeth i aelodau gan swyddogion ynghyd â'r amserlen ateb. Mabwysiadwyd y Protocol gan y Cyngor yn ei ffurf bresennol yn 2014 fel rhan o adolygiad y Cyfansoddiad.

Mae'r protocol wrthi'n cael ei adolygu yn bresennol. Ar yr un pryd, mae canllaw a nodyn esboniadol i swyddogion, fydd yn cynnwys egwyddorion syml ar ymateb i ymholiadau gan aelodau etholedig hefyd yn cael ei ddatblygu yn gyfochrog â'r protocol. Mae'n debygol y bydd y canllaw yn cynnwys egwyddorion clir, gan gynnwys ymdrin yn barchus, ateb mor brydlon â phosib' ayyb.

Mae'r adolygiad o'r Protocol Cyswllt Aelod / Swyddog wedi ei arwain gan y Pwyllgor Safonau ac ynghyd ag ymgynghoriad â swyddogion bydd yn cael ystyriaeth hefyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn y Gwanwyn gyda bwriad o adrodd ar unrhyw addasiadau i'r Cyngor ym Mis Mai. Ac mae hynny oherwydd amserlen y rhaglenni pwyllgor ar hyn o bryd.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Mike Stevens**

"Gawn ni amserlen glir ac arweiniad ynglŷn â sut y dylent ymateb i aelodau?"

**Ateb gan y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Mair Rowlands**

"O ran y protocol ei hun, bydd eisoes wedi ei wneud a'i weithredu, mae'n siŵr, cyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei drafod ym mis Mai. Hefyd, bydd y canllawiau wedi eu datblygu, sy'n fwy penodol, ac yn cyfeirio at yr union faint o amser y byddem yn disgwyl i swyddog gymryd i ymateb. Nid wyf i yn bersonol wedi cael gymaint â hynny o gwynion ynglŷn â diffyg ymateb gan swyddogion, ond i fod yn onest, dros y blynyddoedd, mae'n siŵr mod i wedi cael y profiad yma fy hun ac yn croesawu unrhyw un i ddod ataf gyda mwy o gwynion. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn edrych ar y mater a bydd cais yn mynd i ofyn am enghreifftiau o hyn. Felly, yn sicr, anfonwch unrhyw beth draw. Yn sgil y cwestiwn 'rwyf newydd ateb i'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams, rhaid cymryd i ystyriaeth hefyd realiti'r sefyllfa a'r pwysau sy'n gallu wynebu staff y Cyngor, ond 'rwy'n cytuno bod angen canllaw cliriach iddynt hwy fod yn ymwybodol o beth yw'r protocol."

## 5. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2018/19

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill, 2018.

Tynnwyd sylw gan yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc at waith sy'n mynd rhagddo yn y Panel Rhiantu Corfforaethol o ran cyflwyno eithriad o'r Dreth Cyngor i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Nid oedd yr eithriad yn disgyn o fewn y cynllun hwn, ond byddai eitem yn mynd ymlaen i'r Cabinet, a diolchwyd i'r Aelod Cabinet Cyllid am ei gymorth gyda'r gwaith.

Eglurodd yr Aelod Cabinet Cyllid y byddai modd cyflwyno eithriad rhag Treth Cyngor i bobl ifanc sy'n gadael gofal i'r Cabinet am benderfyniad dilynol ar ôl gwaith costio asesiad effaith priodol ac ystyriaeth yn y Panel Rhiantu Corfforaethol. Gan na ddisgwylid i'r gost berthnasol fod yn waharddol, byddai'r Adran Gyllid yn hapus i weithredu beth bynnag fyddai argymhelliad y panel i'r Cabinet.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Parhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2018 fel ag yr oedd yn ystod 2017/18. Felly, bydd yr amodau canlynol (i – iii isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

- **(i) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**
- **(ii) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sydd yn y Cynllun Rhagnodedig.**
- **(iii) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**(b) Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2018/19, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 6. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adroddiad yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu diwygiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyfeiriwyd at yr angen i wneud dau fân gywiriad i Baragraff 4.20.4 yn yr Atodiad, sef:-

- Is-baragraff (i) – Newid y gair '*improper'* i '*<u>inappropriate'</u>* yn y fersiwn Saesneg.
- Is-baragraff (ii) – Cywiro'r geiriau cyntaf i ddarllen "Er gwaethaf (i) *<u>ni</u>* osodir ...."

Gan gyfeirio at Baragraff 4.20.4, sy'n trafod gwirio rhybuddion o gynnig o safbwynt priodoldeb, cwestiynodd rhai aelodau'r angen am y gair '*amhriodol'* yn Is-baragraff (i) ar y sail ei fod yn tanseilio hawliau'r aelodau a bod y geiriau *'anghyfreithlon'* ac *'allan o drefn'* yn cwmpasu'r cyfan. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod '*amhriodol'* yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at rybudd o gynnig sy'n trafod manylion personol rhywun neu faterion enllibus neu gynnig sy'n ffeithiol anghywir. Byddai'n bryderus ynglŷn â'i ddileu gan fod y Cyfansoddiad yn datgan yn glir beth all fod yn destun rhybudd o gynnig priodol a bod rhaid hidlo pob cynnig yn erbyn hynny er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn gwneud penderfyniad anghyfreithlon. Nododd hefyd fod y gwaith sy'n digwydd gydag aelodau i geisio gwella geiriad eu cynigion yn ymyrraeth gadarnhaol gan ei fod yn ffordd o ddileu unrhyw amhriodoldeb er mwyn caniatáu i'r cynigion hynny fynd yn eu blaenau.

**PENDERFYNWYD addasu'r Cyfansoddiad yn unol â'r adroddiad, gyda'r mân gywiriadau i Baragraff 4.20.4 a nodwyd ac yn ddarostyngedig bod y diwygiad i Baragraff 9.12.3 yn dod yn weithredol wedi cyfarfod blynyddol y Cyngor yn 2018.**

## 7. PENDERFYNIAD BRYS CABINET

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad, er gwybodaeth, ar benderfyniad brys gan y Cabinet ar 24 Hydref, 2017 i gymeradwyo cais i addasu les safle Gorsaf Reilffordd Ucheldir Cymru, Caernarfon er caniatáu defnydd gwerthu bwyd a manwerthu a hepgor gofyn ar gyfer premiwm ychwanegol canlynol yn y ddogfen. Eglurwyd y bu'n ofynnol gwneud penderfyniad brys yn unol â Rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad i eithrio'r mater o'r drefn galw i mewn i graffu er sicrhau bod y Cyngor yn medru darparu penderfyniad i'r cwmni o fewn amserlen y grant.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.**

## 8. RHYBUDDION O GYNNIG

(1) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Owain Williams o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Bod Cyngor Gwynedd yn galw am drefniant fel y bydd hanes Cymru yn cael blaenoriaeth mewn gwersi hanes ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae'r sefyllfa bresennol lle mae diffygion yn dysgu ein hanes a'n hunaniaeth i bob pwrpas yn annerbyniol.**

**Felly galwn ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau angenrheidiol i gywiro'r diffyg hwn a hynny yn ddiymdroi."**

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Addysg at ddatblygiad y cwricwlwm cenedlaethol newydd, Dyfodol Llwyddiannus, fydd yn debygol o arwain at ddewis ehangach i athrawon o ran yr hyn maent yn ddysgu. Fodd bynnag, nid oedd yr adnoddau ar gael ar hyn o bryd i ddysgu hanes Cymru, a chynigiodd welliant i'r cynnig fel a ganlyn:-

- Ychwanegu *"Mae datblygiad y cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus yn gyfle i unioni'r cam yma a bydd angen datblygu adnoddau angenrheidiol dwyieithog i alluogi i athrawon ddysgu hanes Cymru i'r plant"* fel ail baragraff.
- Cynnwys y geiriau *"yn cynnwys datblygu adnoddau dwyieithog"* ar ôl y gair angenrheidiol yn y paragraff olaf.

Eiliwyd y gwelliant.

Mynegodd sawl aelod eu cefnogaeth i'r gwelliant drwy nodi:-

- Bod yr amserlen o ran cael adnoddau Cymraeg ar gyfer y cwricwlwm newydd yn gŵyn gyffredinol ar draws yr holl bynciau.
- Bod cenhedlaeth o athrawon sydd ddim wedi derbyn yr addysg yma am hanes Cymru eu hunain a bod angen codi'r ymwybyddiaeth yma yn ogystal â hyfforddi athrawon yn y maes.
- Dylid manteisio ar yr adnoddau a'r arbenigedd yn Adran Hanes Cymru, Prifysgol Bangor, i helpu i ddatblygu'r cwricwlwm.
- Bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwerslyfrau Cymraeg ar gyfer yr ysgolion, ond nad oedd unrhyw werslyfrau Cymraeg wedi cyrraedd ysgolion uwchradd Gwynedd. Galwyd ar yr aelodau hynny sy'n llywodraethwyr ysgolion i fynnu bod eu hysgolion yn defnyddio'r ddarpariaeth sydd eisoes ar gael ar gyfer dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau a nodwyd gyda chaniatâd y Cyngor a'r eilydd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD bod Cyngor Gwynedd yn galw am drefniant fel y bydd hanes Cymru yn cael blaenoriaeth mewn gwersi hanes ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae'r sefyllfa bresennol lle mae diffygion yn dysgu ein hanes a'n hunaniaeth i bob pwrpas yn annerbyniol.**

**Mae datblygiad y cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus yn gyfle i unioni'r cam yma a bydd angen datblygu adnoddau angenrheidiol dwyieithog i alluogi i athrawon ddysgu hanes Cymru i'r plant.**

**Felly galwn ar Lywodraeth Cymru i gymryd y camau angenrheidiol, yn cynnwys datblygu adnoddau dwyieithog, i gywiro'r diffyg hwn a hynny yn ddiymdroi."**

(2) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Craig ab Iago o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Noda'r Cyngor:**

**Fod y Credyd Cynhwysol, sy'n gyfrifoldeb llywodraeth Torïaid San Steffan, yn ddiffygiol ac yn creu caledi i deuluoedd ac unigolion mwyaf anghenus ein cymdeithas. Ofnir y bydd cynnydd sylweddol mewn ôl-daliadau yn arwain at fwy o ddigartrefedd a mwy o bwysau ar ein gwasanaethau.**

**Nid oes digon o bwysau gwleidyddol wedi ei roi gan Lywodraeth Lafur Cymru yng Nghaerdydd ar San Steffan i ddatganoli'r drefn lles i Gymru. Credwn yn gryf y dylai'r drefn budd-daliadau gael ei ddatganoli'n llwyr i Gymru ond yn y cyfamser gellid datganoli gweinyddiaeth y drefn lles i Gymru fel y mae yn yr Alban, er mwyn rhoi hyblygrwydd i liniaru effeithiau'r dreth anghyfiawn hwn."**

Mynegodd sawl aelod eu cefnogaeth i'r cynnig drwy nodi:-

- Bod yr ymgyrch i symleiddio'r drefn i'w gymeradwyo, ond bod y realiti yn wahanol iawn i'r syniadaeth.
- Bod ymatebion nifer o elusennau i'r credyd cynhwysol ac ystadegau'r elusen banciau bwyd yn tanlinellu effaith y newidiadau ar y mwyaf bregus a thlawd o fewn cymdeithas.
- Y dylai unrhyw un sy'n pryderu am y llai ffodus, neu sydd ag unrhyw fath o gydwybod gymdeithasol, neu'n poeni am yr effaith hirdymor ar y Cyngor a'i staff, gefnogi'r cynnig hwn.
- Bod angen datganoli'r drefn, nid yn unig o safbwynt gweinyddu, ond y dylem gael yr hawl i greu ein system fudd-daliadau ein hunain fel y gellir darganfod ateb sy'n gweithio i bobl Cymru.
- Bod y trefniadau newydd yn effeithio ar landlordiaid hefyd ac yn creu ansicrwydd i bawb.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig.**

(3) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Mae'r Cyngor yn mynegi pryder sylweddol at y modd y mae Llywodraeth Sbaen wedi carcharu 10 o aelodau etholedig Llywodraeth Catalwnia. Mae'r fath erledigaeth yn ymosodiad ar brosesau democrataidd cyflawn ac yn tanseilio egwyddorion llywodraethu'r Undeb Ewropeaidd. Gan fod rhai o drigolion**

**Catalwnia yn byw yng Ngwynedd galwn ar Senedd San Steffan i ddilyn esiampl Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddatgan yn glir eu gwrthwynebiad i'r fath gamwedd ac i yrru neges i Lywodraeth Sbaen nad yw eu hymddygiad yn gydnaws ag egwyddorion hawliau dynol."**

Eglurodd yr aelod fod geiriad gwreiddiol ei gynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatgan eu gwrthwynebiad i'r sefyllfa a gyrru neges i Lywodraeth Sbaen, ond gan fod y cynnig wedi'i roi i mewn cyn i'r Cynulliad gael pleidlais ar y mater, yr hoffai addasu'r cynnig i alw ar Senedd San Steffan i ddilyn esiampl Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy weithredu ar y llinellau hynny.

Caniataodd y Cyngor i'r cynigydd ddiwygio ei gynnig.

Mynegodd sawl aelod eu cefnogaeth i'r cynnig diwygiedig drwy nodi:-

- Bod heddlu Sbaen wedi defnyddio trais difrifol i rwystro pobl rhag mynegi eu barn ac y dylid cefnogi'r egwyddor sylfaenol bod gan bob cenedl yr hawl i benderfynu ar ei thynged ei hun.
- Bod y cynnig yn gyfle i gydnabod y ffordd ofnadwy y cafodd Catalwniaid heddychlon eu trin am ymarfer eu hawliau democrataidd i bleidleisio.
- Bod y fath erledigaeth yn ymosodiad ar brosesau democrataidd ac yn tanseilio trefniadau llywodraethu'r Undeb Ewropeaidd.

Nodwyd y cynhelid Rali i gefnogi Catalwnia am 6.30yh y noson honno ar Faes Caernarfon.

Pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD mae'r Cyngor yn mynegi pryder sylweddol at y modd y mae Llywodraeth Sbaen wedi carcharu 10 o aelodau etholedig Llywodraeth Catalwnia. Mae'r fath erledigaeth yn ymosodiad ar brosesau democrataidd cyflawn ac yn tanseilio egwyddorion llywodraethu'r Undeb Ewropeaidd. Gan fod rhai o drigolion Catalwnia yn byw yng Ngwynedd galwn ar Senedd San Steffan i ddilyn esiampl Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ddatgan yn glir eu gwrthwynebiad i'r fath gamwedd ac i yrru neges i Lywodraeth Sbaen nad yw eu hymddygiad yn gydnaws ag egwyddorion hawliau dynol.**

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.40 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**